OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 352

## Gorchymyn BG plc (Gwerth Ardrethol) (Cymru) 2000

**Diddymu ac eithrio**

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), diddymir drwy hyn Gorchymyn British Gas plc (Gwerthoedd Ardrethol) 1994(**1**) o'r 1 Ebrill 2000 ymlaen.

(2) Bydd Gorchymyn British Gas plc (Gwerthoedd Ardrethol) 1994 yn parhau'n effeithiol ar ac ar ôl 1 Ebrill 2000 at ddibenion neu ddibenion sy'n gysylltiedig ag—

(a) unrhyw newid i restr mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2000; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan reoliadau a wnaed o dan adran 58(**2**) o'r Ddeddf (darpariaeth arbennig ar gyfer 1995 ymlaen) ynglŷn â'r swm taladwy am hereditament am gyfnod perthnasol fel y'i ddiffinnir yn yr adran honno.

(**1**) S.I. 1994/3283.

(**2**) Section 58 is amended by paragraph 68 of Schedule 13 to the Local Government Finance Act 1992 (c. 14) and section 2 of the Non-Domestic Rating Act 1994.